PŴER NIWCLEAR
HORIZON
NUCLEAR POWER

YNNI YN GWEITHIO I BRYDAIN

Polisi preifatrwydd gwefan

DIM MARC DIOGELU

Cynnwys

1. Gwybodaeth bwysig a phwy ydym ni. 3
2. Y data rydyn ni'n ei gasglu amdanoch chi 4
3. Sut caiff eich data personol ei gasglu? 5
4. Sut byddwn yn defnyddio eich data personol 5-7
5. Datgelu eich data personol. 8
6. Trosglwyddo rhyngwladol. 8
7. Diogelwch data 8
8. Cadw data. 9
9. Eich hawliau cyfreithiol. 9
10. Geirfa 10-11

Cyflwyniad

Croeso i hysbysiad preifatrwydd Horizon Nuclear Power Limited.

Mae Horizon yn parchu eich preifatrwydd ac mae wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol. Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybod i chi sut rydyn ni'n gofalu am eich data personol pan fyddwch chi'n ymweld â'n gwefan (dim ots o ble rydych chi'n ymweld ag ef) a rhoi gwybod i chi am eich hawliau preifatrwydd a sut mae'r gyfraith yn eich diogelu chi.

Darllenwch yr hysbysiad hwn yn ofalus a chysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ein harferion preifatrwydd. Defnyddiwch yr Eirfa hefyd i ddeall ystyr rhai o'r termau sy'n cael eu defnyddio yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

1.Gwybodaeth bwysig a phwy ydym ni

Diben yr hysbysiad preifatrwydd hwn:

Nod yr hysbysiad preifatrwydd hwn ydy rhoi gwybodaeth i chi am sut mae Horizon yn casglu ac yn prosesu eich data personol pan fyddwch chi'n defnyddio'r wefan hon.

Nid ydy'r wefan hon ar gyfer plant ac nid ydyn ni'n casglu data sy'n ymwneud â phlant yn fwriadol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd yma gydag unrhyw hysbysiad preifatrwydd neu hysbysiad prosesu teg arall mae'n bosibl i ni ei roi ar adegau penodol pan fyddwn ni'n casglu neu'n prosesu data personol amdanoch chi er mwyn sicrhau eich bod yn gwybod yn iawn sut a pham ein bod yn defnyddio eich data. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ategu'r hysbysiadau eraill ac nid yw'n fwriad ei fod yn eu disodli.

Rheolydd

Mae Horizon yn cynnwys endidau cyfreithiol gwahanol, Horizon Nuclear Power Limited a phob un o'i Ymgymeriadau grŵp (term fel y diffinnir yn adrannau 1161 i 1162 Deddf Cwmnïau 2006). Caiff yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei gyhoeddi ar ran Grŵp Horizon felly pan fyddwn ni'n sôn am "Horizon", "ni" neu "ein" yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, rydyn ni'n cyfeirio at y cwmni perthnasol yn Grŵp Horizon sy'n gyfrifol am brosesu eich data. Horizon ydy'r rheolydd ac mae'n gyfrifol am y wefan hon.

Ein Cwnsler Cyffredinol sy'n bennaf atebol am breifatrwydd data ac rydyn ni wedi penodi Pwyllgor Preifatrwydd Data sy'n gyfrifol am oruchwylio cwestiynau mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, gan gynnwys unrhyw gais i ymarfer eich hawliau cyfreithiol, cysylltwch â'r Pwyllgor Preifatrwydd Data drwy ddefnyddio'r manylion isod.

Manylion cysylltu

Dyma ein manylion llawn:

Enw llawn yr endid cyfreithiol: Horizon Nuclear Power Limited

Teitl yr unigolyn atebol: Prif Gwnsler

Cyfeiriad e-bost: dataprivacy@horizonnuclearpower.com

Cyfeiriad post: Sunrise House, 1420 Charlton Court, Gloucester Business Park, Gloucester GL34AE

Rhif ffôn: 01242 508508

Mae gennych chi'r hawl i gwyno unrhyw bryd wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion sy'n ymwneud â diogelu data (www.ico.org.uk). Serch hynny, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddelio â'ch pryderon cyn i chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, felly cysylltwch â ni yn y lle cyntaf os gwelwch yn dda.

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd a'ch dyletswydd i roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau

Mae'r gyfraith diogelu data yn y DU yn newid ar 25 Mai 2018. Er bod yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi'r rhan fwyaf o'ch hawliau o dan y cyfreithiau newydd, efallai na fyddwn yn gallu ymateb i rai o'ch ceisiadau tan ar ôl mis Mai 2018 gan ein bod yn dal i weithio ar gael ein systemau'n barod ar gyfer rhai o'r newidiadau hyn.

Mae hi'n bwysig bod y data personol sydd gennym amdanoch chi'n gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os bydd eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas â ni.

Dolenni trydydd parti

Mae'r wefan hon yn gallu cynnwys dolenni at wefannau ategolion a rhaglenni trydydd parti. Mae clicio ar y dolenni hynny neu alluogi'r cysylltiadau hynny'n gallu caniatáu i drydydd partïon gasglu neu rannu data amdanoch chi. Nid ydyn ni'n rheoli'r gwefannau trydydd parti hynny ac nid ydyn ni'n gyfrifol am eu datganiadau preifatrwydd. Pan fyddwch chi'n gadael ein gwefan, rydyn ni'n eich annog i ddarllen hysbysiad preifatrwydd pob gwefan byddwch chi'n ymweld â hi.

2.Y data rydyn ni'n ei gasglu amdanoch chi

Mae data personol, neu wybodaeth bersonol, yn golygu unrhyw wybodaeth am unigolyn sy'n golygu bod modd adnabod yr unigolyn hwnnw neu honno. Nid yw'n cynnwys data lle mae'r manylion hynny wedi cael eu tynnu allan (data dienw).

Mae'n bosibl i ni gasglu, defnyddio, storio a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi ac rydyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel a ganlyn:

- **Data Hunaniaeth** mae'n cynnwys enw cyntaf, enw cyn priodi, enw olaf a theitl.
- **Data Cyswllt** mae'n gallu cynnwys cyfeiriad e-bost a rhifau ffôn.
- **Data Ariannol** mae'n cynnwys manylion cyfrif banc a cherdyn talu.
- **Data Technegol** mae'n cynnwys cyfeiriad protocol rhyngrwyd (IP), eich data mewngofnodi, math o borwr a'r fersiwn, gosodiad cylchfa amser a lleoliad, mathau o ategolion porwr a'u fersiynau, system gweithredu a llwyfan a thechnoleg arall ar y dyfeisiau rydych chi'n eu defnyddio i ymweld â'r wefan hon.
- **Data Proffil** mae'n cynnwys eich diddordebau, eich dewisiadau, eich adborth a'ch ymatebion i arolygon.
- **Data Defnydd** mae'n cynnwys gwybodaeth am sut rydych chi'n defnyddio ein gwefan, ein cynnyrch a'n gwasanaethau.
- **Data Marchnata a Chyfathrebu** mae'n cynnwys eich dewisiadau o ran derbyn deunyddiau marchnata gennym a'n trydydd partïon a'ch dewisiadau o ran cyfathrebu.

Rydyn ni hefyd yn casglu, yn defnyddio ac yn rhannu **Data wedi'i Gyfuno** fel data ystadegol neu ddemograffig at unrhyw ddiben. Mae'n bosibl y daw Data wedi'i Gyfuno o'ch data personol ond ni chaiff ei ystyried fel data personol yn gyfreithiol gan **nad** ydy'r data hwn yn datgelu pwy ydych chi'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Er enghraifft, gallwn gyfuno eich Data Defnydd i gyfrifo canran y defnyddwyr sy'n defnyddio nodwedd benodol ar y wefan. Fodd bynnag, os byddwn yn cyfuno neu'n cysylltu Data wedi'i Gyfuno â'ch data personol er mwyn iddo allu eich adnabod chi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, byddwn yn trin y data sydd wedi cael ei gyfuno fel data personol a fydd wedyn yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Ni fyddwn yn casglu unrhyw **Ddata Personol Categorïau Arbennig** amdanoch chi (mae hyn yn cynnwys manylion am eich hil neu'ch ethnigrwydd, eich crefydd neu'ch credoau athronyddol, eich bywyd rhywiol, eich cyfeiriadedd rhywiol, eich safbwyntiau gwleidyddol, eich aelodaeth o undeb llafur, gwybodaeth am eich iechyd a data genetig a biometrig). Nid ydyn ni chwaith yn casglu unrhyw wybodaeth am euogfarnau na throseddau.

Os byddwch chi'n methu darparu data personol

Pan fydd angen i ni gasglu data personol o dan y gyfraith, neu o dan delerau contract sydd gennym ni gyda chi a'ch bod yn methu darparu'r data hwnnw ar gais, mae'n bosibl na fyddwn ni'n gallu cyflawni'r contract rydyn ni wedi neu rydyn ni'n ceisio ymrwymo iddo gyda chi (er enghraifft, er mwyn darparu nwyddau neu wasanaethau i chi). Yn yr achos yma, efallai bydd angen i ni ganslo cynnyrch neu wasanaeth sydd gennych chi gyda ni ond byddwn ni'n rhoi gwybod i chi os dyma fydd yr achos ar yr adeg briodol.

3.Sut caiff eich data personol ei gasglu?

Byddwn yn defnyddio dulliau gwahanol i gasglu data gennych chi ac amdanoch chi, gan gynnwys drwy:

- **Rhyngweithio uniongyrchol.** Efallai byddwch chi'n rhoi eich Data Hunaniaeth a Chyswllt i ni drwy lenwi ffurflenni neu drwy ohebu â ni drwy'r post, dros y ffôn, yr e-bost neu fel arall. Mae hyn yn cynnwys data personol rydych chi'n ei roi pan fyddwch chi:
- yn tanysgrifio i'n gwasanaeth neu ein cyhoeddiadau;
- yn gofyn i ni anfon deunyddiau marchnata atoch chi;
- yn rhoi cynnig ar gystadleuaeth, cynnig hyrwyddo neu arolwg; neu
- yn rhoi adborth i ni.
- **Rhyngweithio neu dechnolegau awtomataidd.** Wrth i chi ryngweithio â'n gwefan, mae'n bosibl i ni gasglu Data Technegol yn awtomatig am eich offer, eich gweithredoedd a'ch patrymau pori. Byddwn yn casglu'r wybodaeth hon drwy ddefnyddio cwcis, logiau gweinydd a thechnolegau tebyg eraill.

Trydydd partïon neu ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae'n bosibl y byddwn ni'n cael data personol amdanoch chi gan amrywiol drydydd partïon a ffynonellau cyhoeddus, fel Data Hunaniaeth a Chyswllt o ffynonellau sydd ar gael yn gyhoeddus fel Tŷ'r Cwmnïau a'r Gofrestr Etholiadol yn yr Undeb Ewropeaidd.

4.Sut byddwn yn defnyddio eich data personol

Byddwn ni ond yn defnyddio eich data personol pan fydd y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Gan amlaf, byddwn yn defnyddio eich data personol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fydd angen i ni gyflawni'r contract rydyn ni wedi neu ar fin ymrwymo iddo gyda chi.
- Pan fydd angen ar gyfer ein buddiannau cyfiawn (neu rai trydydd parti) ac na fydd eich buddiannau chi na'ch hawliau sylfaenol yn drech na'r buddiannau hynny.
- Pan fydd angen i ni gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol neu reoleiddiol.

Edrychwch isod i gael rhagor o wybodaeth am y mathau o seiliau cyfreithiol byddwn ni'n dibynnu arnyn nhw i brosesu eich data personol.

At ei gilydd ni fyddwn yn dibynnu ar gydsyniad fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol ar wahân i mewn perthynas ag anfon deunyddiau cyfathrebu marchnata uniongyrchol trydydd parti atoch chi drwy e-bost neu negeseuon testun. Mae gennych chi hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd drwy anfon neges e-bost i'r cyfeiriad canlynol: ***info@horizonnuclearpower.com.***

Dibenion defnyddio eich data personol

Mewn fformat tabl isod rydyn ni wedi rhoi disgrifiad o'r holl ffyrdd rydyn ni'n bwriadu defnyddio eich data personol, a pha sail gyfreithiol byddwn ni'n dibynnu arni i wneud hynny. Rydyn ni hefyd wedi nodi beth ydy ein buddiannau cyfiawn pan fo'n briodol.

Sylwch ei bod yn bosibl y gallwn brosesu eich data personol ar sail mwy nag un sail gyfreithiol gan ddibynnu ar y diben penodol pam rydyn ni'n defnyddio eich data. Cysylltwch â ni os byddwch chi angen manylion am y sail gyfreithiol benodol rydyn ni'n dibynnu arni i brosesu eich data personol pan fydd mwy nag un sail wedi cael ei nodi yn y tabl isod.

Diben/Gweithgaredd	Math o ddata	Y sail gyfreithiol dros brosesu gan gynnwys sail buddiant cyfiawn
Er mwyn eich cofrestru chi fel rhanddeiliad newydd i'r Prosiect	(a) Hunaniaeth (b) Cyswllt	(a) Cyflawni contract gyda chi (b) Angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol (c) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfiawn (er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a chadw ein cofnodion yn gyfredol)
Er mwyn rheoli ein perthynas â chi a fydd yn cynnwys: (a) Rhoi gwybod i chi am newidiadau i'n telerau neu'n polisi preifatrwydd (b) Gofyn i chi roi adolygiad neu gymryd rhan mewn arolwg	(a) Hunaniaeth (b) Cyswllt (c) Proffil (d) Marchnata a Chyfathrebu	(a) Cyflawni contract gyda chi (b) Angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol (c) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfiawn (er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a chadw ein cofnodion yn gyfredol ac er mwyn canfod sut mae rhanddeiliaid yn defnyddio gwasanaethau ein gwefan ac yn ymwneud â'n Prosiect)
Er mwyn eich galluogi chi i gymryd rhan mewn raffl, cystadleuaeth neu lenwi arolwg	(a) Hunaniaeth (b) Cyswllt (c) Proffil (d) Defnydd (e) Marchnata a Chyfathrebu	(a) Cyflawni contract gyda chi (b) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfiawn (er mwyn canfod sut mae rhanddeiliaid yn defnyddio gwasanaethau ein gwefan ac yn ymwneud â'n Prosiect), datblygu ymgysylltiad cymunedol a gwella ein busnes)
Er mwyn gweinyddu a diogelu ein busnes a'r wefan hon (gan gynnwys datrys problemau, dadansoddi data, profi, cynnal a chadw systemau, cefnogaeth, riportio a chynnal data)	(a) Hunaniaeth (b) Cyswllt (c) Technegol	(a) Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfiawn (ar gyfer rhedeg ein busnes, darparu a gweinyddu gwasanaethau TG, diogelwch rhwydwaith, atal twyll ac yng nghyd-destun ymarfer ad-drefnu busnes neu ailstrwythuro grŵp) (b) Angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol
Er mwyn darparu cynnwys a deunyddiau marchnata gwefan i chi a mesur neu ddeall effeithiolrwydd y deunyddiau marchnata rydyn ni'n eu rhoi i chi	(a) Hunaniaeth (b) Cyswllt (c) Proffil (d) Defnydd (e) Marchnata a Chyfathrebu (f) Technegol	Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfiawn (er mwyn canfod sut mae rhanddeiliaid yn defnyddio ein gwefan, gwella ymgysylltiad cymunedol, eu datblygu ac er mwyn cyfrannu at ein strategaeth gyfathrebu)
Defnyddio dadansoddeg data i wella ein gwefan, profiadau a chysylltiadau â rhanddeiliaid a'n strategaeth gyfathrebu	(a) Technegol (b) Defnydd	Angenrheidiol ar gyfer ein buddiannau cyfiawn (er mwyn diffinio rhanddeiliaid, diweddaru ein gwefan a sicrhau ei bod yn berthnasol, datblygu ein busnes a chyfrannu at ein strategaeth gyfathrebu)

Cyfathrebu â rhanddeiliaid

Rydyn ni'n ymdrechu i roi dewisiadau i chi ynghylch rhai ffyrdd o ddefnyddio data personol yn enwedig o ran cyfathrebu a diweddariadau.

Optio allan

Gallwch chi ofyn i ni neu drydydd partïon stopio anfon negeseuon cyfathrebu â rhanddeiliaid atoch chi unrhyw bryd drwy gysylltu â ni unrhyw bryd.

Cwcis a chyfeiriadau IP

Gallwch chi osod eich porwr i wrthod rhai cwcis porwr neu'r cyfan, neu i roi gwybod i chi pan fydd gwefannau'n gosod neu'n defnyddio cwcis. Os byddwch chi'n analluogi neu'n gwrthod cwcis, cofiwch efallai na fydd modd defnyddio rhai rhannau o'r wefan hon neu efallai na fyddan nhw'n gweithio'n iawn.

Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis i wahaniaethu rhyngoch chi a defnyddwyr eraill ein gwefan. Mae hyn yn ein helpu i roi profiad da i chi pan fyddwch chi'n pori ein gwefan ac mae hefyd yn caniatáu i ni wella ein safle.

Mae modd defnyddio technoleg o'r enw "cwcis" i roi gwybodaeth wedi'i theilwra i chi o'r Gwefannau. Mae cwci yn ffeil ddata fach mae'r Wefan yn ei hysgrifennu ar eich gyriant caled pan fyddwch chi'n ymweld â hi. Mae mathau penodol o gwcis o'r enw "cwcis sesiwn" hefyd yn ysgrifennu gwybodaeth ar y gweinydd, er bod yr wybodaeth hon yn cael ei dileu wrth gau'r porwr.

Yr unig wybodaeth bersonol mae modd i gwci ei chael ydy gwybodaeth rydych chi'n ei rhoi eich hun. Ni all cwci ddarllen data o'ch disg galed na darllen ffeiliau cwcis sydd wedi cael eu creu gan wefannau eraill. Fodd bynnag, mae cwcis yn gallu gwella perfformiad ein Gwefannau mewn sawl ffordd gan gynnwys rhoi ffordd ddiogel i ni ddilysu pwy ydych chi yn ystod eich ymweliad â Gwefan a phersonoli eich profiad ar Wefan sy'n golygu ei bod hi'n fwy hwylus i chi. Mae'r Gwefannau'n defnyddio Cwcis er mwyn i ni allu darparu gwasanaeth gwell i chi. Dim ond pan fyddwch chi ar y Wefan bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Gallwch chi wrthod cwcis drwy eu diffodd ar eich porwr gwe. Mewn rhai amgylchiadau mae hyn yn gallu effeithio ar ddefnyddio Gwefannau. Yn ddiofyn mae'r rhan fwyaf o borwyr yn derbyn ac yn cynnal cwcis a gallwch chi osod eich porwr i roi gwybod i chi pan fyddwch chi'n cael cwci, sy'n rhoi'r cyfle i chi benderfynu os ydych chi am ei dderbyn ai peidio.

Mae tudalennau'r Wefan yn gallu cynnwys delweddau electronig o'r enw ffaglau'r We (mae gifs un-picsel yn enw arall arnyn nhw) sy'n caniatáu i ni gyfri'r defnyddwyr sydd wedi ymweld â'r tudalennau hynny. Ni fydd ffaglau'r We yn cael eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy'n dangos pwy ydych chi ar y Gwefannau. Mae techneg gallwn ni ei defnyddio i gronni ystadegau wedi'u cyfuno am ddefnydd o'r Wefan. Mae ffaglau'r We ond yn casglu set gyfyngedig o wybodaeth gan gynnwys rhif cwci, amser a dyddiad edrych ar dudalen a disgrifiad o'r dudalen lle mae'r ffaglau Gwe.

Gyda neu heb cwcis, mae'r Gwefannau'n cadw golwg ar ddata defnydd, fel y cyfeiriad ffynhonnell lle daw'r cais am y dudalen (hy eich cyfeiriad IP), enw parth, dyddiad ac amser y cais am y dudalen, y wefan sy'n cyfeirio (os o gwbl) a pharamedrau eraill yn yr URL (ee meini prawf chwilio). Rydyn ni'n defnyddio'r data yma i ddeall defnydd o'r Wefan yn well er mwyn i ni wybod pa ardaloedd o'r Wefan sydd orau gan ddefnyddwyr. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio mewn ffeiliau log ac yn cael ei defnyddio ar gyfer cofnodi wedi'i gyfuno ac ystadegol ond nid yw'n cael ei phriodoli i chi fel unigolyn.

Newid diben

Byddwn ni ond yn defnyddio eich data personol at y diben y cafodd ei gasglu ar ei gyfer, oni bai ein bod yn credu'n rhesymol bod angen i ni ei ddefnyddio am reswm arall a bod y rheswm hwnnw'n cyd-fynd â'r diben gwreiddiol. Os hoffech chi gael esboniad ynghylch sut mae'r prosesu at y diben newydd yn cyd-fynd â'r diben gwreiddiol cysylltwch â ni.

Os bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol am ddiben heb gysylltiad, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi ac yn egluro'r sail gyfreithiol sy'n caniatáu i ni wneud hynny.

Sylwch y gallwn ni brosesu eich data personol heb i chi wybod a heb eich cydsyniad, yn unol â'r rheolau uchod, pan fydd y gyfraith yn caniatáu neu'n mynnu hynny.

5. Datgelu eich data personol

Efallai y bydd yn rhaid i ni rannu eich data personol â'r partïon a nodir isod at y dibenion a nodir yn y tabl ym mharagraff 4 uchod.

- Trydydd Partïon Mewnol fel y nodir yn yr Eirfa.
- Trydydd Partïon Allanol fel y nodir yn yr Eirfa.
- Trydydd partïon Mewn perthynas ag uno, gwerthu, ailstrwythuro, prynu, menter ar y cyd, aseiniad, trosglwyddo, neu waredu pob rhan neu unrhyw ran o'n busnes, asedau neu stoc (gan gynnwys mewn cysylltiad ag unrhyw achos methdaliad neu achos tebyg). Os bydd newid i'n busnes, yna gall y perchnogion newydd ddefnyddio eich data personol yn yr un ffordd a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd yma.
- Er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol ac ymateb i geisiadau gan asiantaethau llywodraeth, gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau cyhoeddus eraill, a all gynnwys awdurdodau y tu allan i'r wlad lle rydych chi'n byw.
- Er mwyn diogelu ein hawliau, defnyddwyr, systemau a Gwasanaethau.

Rydyn ni'n mynnu bod pob trydydd parti yn parchu diogelwch eich data personol a'u bod yn ei drin yn unol â'r gyfraith. Nid ydyn ni'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti ddefnyddio eich data personol at eu dibenion eu hunain ac rydyn ni ond yn caniatáu iddyn nhw brosesu eich data personol at ddibenion penodol ac yn unol â'n cyfarwyddiadau.

6.Trosglwyddo rhyngwladol

Rydyn ni'n rhannu eich data personol yng Ngrŵp Hitachi. Bydd hyn yn golygu trosglwyddo eich data y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

Mae nifer o'n trydydd partïon allanol wedi'u lleoli y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop, felly bydd gofyn trosglwyddo data y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop pan fyddant yn prosesu eich data personol.

Pryd bynnag y byddwn ni'n trosglwyddo eich data personol y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop, byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu mewn ffordd debyg drwy sicrhau bod o leiaf un o'r mesurau diogelu isod yn cael eu rhoi ar waith:

- Pan fyddwn ni'n defnyddio darparwyr gwasanaethau penodol, mae'n bosibl y byddwn ni'n defnyddio mathau penodol o gontractau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n sicrhau bod data personol yn cael ei ddiogelu yn yr un modd ag y mae'n cael ei ddiogelu yn Ewrop. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Comisiwn Ewropeaidd: Contractau enghreifftiol ar gyfer trosglwyddo data personol i drydydd gweledydd.
- Pan fyddwn ni'n defnyddio darparwyr yn UDA, mae'n bosibl y byddwn ni'n trosglwyddo data iddyn nhw os ydyn nhw'n rhan o'r Darian Preifatrwydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw roi diogelwch tebyg i ddata personol sy'n cael ei rannu rhwng Ewrop ac UDA. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Comisiwn Ewropeaidd: Tarian Preifatrwydd UE-UDA.

Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth am y dulliau penodol rydyn ni'n eu defnyddio wrth drosglwyddo eich data personol y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

7.Diogelwch data

Rydyn ni wedi rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal eich data personol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, cael ei ddefnyddio neu ei gyrchu heb awdurdod, neu ei addasu neu ei ddatgelu. Hefyd, rydyn ni'n gwneud yn siŵr mai dim ond y gweithwyr, yr asiantau, y contractwyr a'r trydydd partïon eraill hynny sydd ag angen busnes i wybod sy'n cael mynediad at eich data personol. Dim ond pan fyddwn ni'n rhoi cyfarwyddyd iddyn nhw wneud hynny y byddan nhw'n prosesu eich data personol, ac mae ganddyn nhw ddyletswydd o ran cyfrinachedd.

Rydyn ni wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data a byddwn yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol am achos o'r fath pan fydd hynny'n ofynnol o dan y gyfraith.

8.Cadw data

Am ba mor hir y byddwch chi'n defnyddio fy nata personol?

Dim ond am gyhyd ag y bo angen er mwyn cyflawni'r dibenion y cafodd eich data personol ei gasglu ar eu cyfer y byddwn ni'n cadw eich data personol. Mae hyn yn cynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol, cyfrifyddu neu adrodd.

Er mwyn penderfynu am ba mor hir y dylid cadw data personol, rydyn ni'n ystyried nifer, natur a sensitifrwydd y data personol, y risg posibl o niwed petai eich data personol yn cael ei ddefnyddio neu ei ddatgelu heb awdurdod, at ba ddibenion y byddwn ni'n prosesu eich data personol ac a fyddem ni'n gallu cyflawni'r dibenion hynny mewn ffyrdd eraill, a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Mae manylion unrhyw gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau eich data personol ar gael yn ein polisi cadw ni, ac mae modd i chi gael copi drwy gysylltu â ni.

Cewch ofyn i ni ddileu eich data mewn rhai amgylchiadau: darllenwch yr adran Gofyn am ddileu data isod i gael rhagor o wybodaeth.

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwn ni'n sicrhau bod eich data personol yn ddienw (fel nad oes modd eich cysylltu chi â'r data) at ddibenion ymchwil neu ystadegol. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon am gyfnod amhenodol, heb roi gwybod i chi fel arall.

9.Eich hawliau cyfreithiol

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych chi hawliau yng nghyswllt eich data personol o dan gyfreithiau diogelu data. Cliciwch ar y dolenni isod i gael rhagor o wybodaeth am yr hawliau hyn:

- Gofyn am fynediad at eich data personol.
- Gofyn am gywiro eich data personol.
- Gofyn am ddileu eich data personol.
- Gwrthwynebu prosesu eich data personol.
- Gofyn am gyfyngu prosesu eich data personol.
- Yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl.

Os hoffech ymarfer unrhyw rai o'r hawliau sydd wedi'u nodi uchod, cysylltwch â ni.

Does dim angen talu ffi fel arfer

Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad at eich data personol (nac i ymarfer unrhyw rai o'r hawliau eraill). Fodd bynnag, efallai y byddwn ni'n codi ffi resymol arnoch chi os bydd eich cais yn amlwg yn ddi-sail, yn ailadroddus neu'n eithafol. Neu, mae'n bosibl y byddwn ni'n gwrthod cydymffurfio â'ch cais yn yr amgylchiadau hyn.

Beth fydd ei angen arnom o bosibl

Efallai y bydd yn rhaid i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych chi i'n helpu ni i gadarnhau pwy ydych chi a sicrhau bod gennych chi hawl i gael mynediad at eich data personol (neu i ymarfer unrhyw rai o'ch hawliau eraill). Mesur diogelwch ydy hyn, i sicrhau na ydy'ch data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw un nad oes ganddo'r hawl i'w weld. Hefyd, efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'ch cais er mwyn ein helpu i ymateb yn gynt.

Cyfyngiad amser o ran ymateb

Rydyn ni'n ceisio ymateb i bob cais dilys cyn pen mis. Mae'n bosibl y bydd y broses yn cymryd mwy na mis i ni o bryd i'w gilydd os ydy'ch cais yn arbennig o gymhleth neu os ydych chi wedi cyflwyno sawl cais. Yn yr achos hwn, byddwn yn rhoi gwybod i chi ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi.

10. Geirfa

Sail gyfreithiol. Mae'n rhaid i ni gael sail gyfreithiol ddilys er mwyn prosesu eich data personol. Mae chwe sail gyfreithiol ar gael ar gyfer prosesu (ac mae'r rhan fwyaf yn mynnu bod y prosesu'n 'angenrheidiol'):

(a) Cydsyniad

(b) **Cyflawni Contract** sy'n golygu prosesu eich data pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni contract rydych chi'n rhan ohono neu gymryd camau ar eich cais chi cyn ymrwymo i gontract o'r fath.

(c) **Cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol neu reoleiddiol** sy'n golygu prosesu eich data personol pan fo hynny'n angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol neu reoleiddiol sy'n berthnasol i ni.

(d) Buddiannau cyfiawn

(e) Tasg gyhoeddus

(f) **Buddiannau cyfiawn** sy'n golygu buddiannau ein busnes o ran cynnal a rheoli ein busnes er mwyn ein galluogi ni i ddarparu'r gwasanaeth/cynnyrch gorau i chi a'r profiad mwyaf diogel. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n ystyried ac yn cydbwyso unrhyw effaith bosibl arnoch chi (cadarnhaol a negyddol) a'ch hawliau chi cyn y byddwn ni'n prosesu eich data personol ar gyfer ein buddiannau cyfiawn. Ni fyddwn ni'n defnyddio eich data personol ar gyfer gweithgareddau pan fydd yr effaith arnoch chi'n drech na'n buddiannau (oni bai ein bod wedi cael eich caniatâd chi neu pan fydd y gyfraith yn caniatáu neu'n mynnu hynny). Mae modd i chi gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n asesu ein buddiannau cyfiawn yn erbyn unrhyw effaith bosibl arnoch chi yng nghyswllt gweithgareddau penodol drwy gysylltu â ni.

TRYDYDD PARTÏON

Trydydd Partïon Mewnol

Mae Horizon yn rhan o Grŵp Hitachi - grŵp byd-eang sy'n cynnwys sawl endid sy'n gweithredu fel cyd reolyddion neu broseswyr, wedi'u lleoli yn Japan ac UDA, sy'n darparu gwasanaethau TG a gweinyddu systemau yn ogystal ag adrodd am arweinyddiaeth. Er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r gweithgareddau prosesu hyn, mae'n bosibl y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu ag unrhyw rai o'r endidau yn rhwydwaith Hitachi. Fodd bynnag, pan fyddwn ni'n rhannu data yn y modd hwn, mae gennym bolisi sy'n cyfyngu ar gategorïau'r unigolion sy'n gallu cael mynediad at yr wybodaeth honno.

Trydydd Partïon Allanol

- Darparwyr gwasanaethau sy'n gweithredu fel proseswyr yn y DU ac yn India sy'n darparu gwasanaethau TG a gweinyddu systemau.
- Ein partneriaid Busnes, ein cyflenwyr a'n isgontractwyr yn y DU, UDA a Japan, sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw gontract rydyn ni'n ymrwymo iddo â nhw neu chi a/neu sy'n darparu gwasanaethau yng nghyswllt y prosiect.
- Ymgynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys cyfreithwyr, bancwyr, archwilwyr ac yswirwyr yn y DU sy'n darparu gwasanaethau ymgynghori, bancio, cyfreithiol, yswiriant a chyfrifyddu.
- Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr ac awdurdodau eraill yn y Deyrnas Unedig sy'n gorfod adrodd ar weithgareddau prosesu mewn rhai amgylchiadau.
- Partneriaid Cysylltiadau Cyhoeddus yn y DU sy'n darparu gwasanaethau cyfathrebu a gweinyddol.

EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mae gennych chi hawl i wneud y canlynol:

Gofyn am fynediad at eich data personol (sy'n cael ei alw'n "gais gwrthrych am gael gweld data" fel arfer). Mae hyn yn eich galluogi chi i gael copi o'r data personol rydyn ni'n ei gadw amdanoch chi a gwneud yn siŵr ein bod yn ei brosesu'n unol â'r gyfraith.

Gofyn am gywiro'r data personol rydyn ni'n ei gadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi chi i gywiro unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir rydyn ni'n ei gadw amdanoch chi. Ond mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni wirio cywirdeb y data newydd y byddwch chi'n ei roi i ni.

Gofyn am ddileu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni ddileu neu dynnu data personol allan pan nad oes gennym reswm da dros barhau i'w brosesu. Hefyd, mae gennych chi hawl i ofyn i ni ddileu neu dynnu data personol allan pan fyddwch chi wedi llwyddo i ymarfer eich hawl i wrthwynebu prosesu (darllenwch yr adran isod), lle mae'n bosibl ein bod ni wedi prosesu eich gwybodaeth yn anghyfreithlon, neu pan fydd yn ofynnol i ni ddileu eich data personol er mwyn cydymffurfio â chyfraith leol. Ond, efallai na fyddwn ni bob amser yn gallu cydymffurfio â'ch cais i ddileu am resymau cyfreithiol penodol. Byddwn ni'n rhoi gwybod hynny i chi, os bydd hynny'n berthnasol, pan fyddwch chi'n cyflwyno eich cais.

Gwrthwynebu prosesu eich data personol pan fyddwn ni'n dibynnu ar fuddiant cyfiawn (neu rai trydydd parti) a phan fydd rhywbeth yn ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi sy'n gwneud i chi ddymuno gwrthwynebu prosesu oherwydd eich bod yn teimlo bod hynny'n effeithio ar eich rhyddid a'ch hawliau sylfaenol. Mae gennych chi hawl hefyd i wrthwynebu pan fyddwn ni'n prosesu eich data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn ni'n dangos bod gennym ni sail gyfiawn a chymhellol dros brosesu eich gwybodaeth, sy'n drech na'ch hawliau a'ch rhyddid.

Gofyn am gyfyngu prosesu eich data personol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni atal prosesu eich data personol o dan yr amgylchiadau canlynol: (a) os ydych chi am i ni wirio cywirdeb y data; (b) pan fyddwn yn defnyddio'r data yn anghyfreithlon, ond nad ydych chi'n dymuno i ni ei ddileu; (c) pan fydd arnoch angen i ni gadw'r data hyd yn oed os nad oes ei angen arnom mwyach gan fod ei angen arnoch chi i sefydlu, ymarfer neu warchod hawliadau cyfreithiol; neu (d) os ydych chi wedi gwrthwynebu i ni ddefnyddio eich data ond pan fydd arnom angen gwirio a oes gennym ni unrhyw sail gyfreithiol sy'n drech na hynny dros ei ddefnyddio.

Tynnu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd pan fyddwn yn dibynnu ar gydsyniad i brosesu eich data personol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb unrhyw brosesu a wnaed cyn i chi dynnu eich cydsyniad yn ôl. Os byddwch chi'n tynnu eich cydsyniad yn ôl, efallai na fyddwn ni'n gallu darparu gwasanaethau penodol i chi. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd hyn yn berthnasol pan fyddwch chi'n tynnu eich cydsyniad yn ôl.